# Y Pwyllgor Cyllid

Meeting Venue: **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Meeting date: **Dydd Mercher, 29 Mehefin 2011**

Meeting time: **09:30 - 10:10**

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Concise Minutes:

| | |
|---|---|
| Assembly Members: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Nick Ramsay**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Witnesses: | **Jane Hutt**<br>**Jeff Andrews, Llywodraeth Cymru**<br>**Andrew Jeffreys, Llywodraeth Cymru** |
| Committee Staff: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad.

## 2. Cyllideb Atodol 2011-12 - Y Gweinidog Cyllid

**Craffu ar waith Llywodraeth Cymru**

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid; Andrew Jeffreys, Pennaeth Cyllidebu Strategol, yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad; a Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad.

2.2 Holodd y Pwyllgor y Gweinidog.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- rhagor o fanylion am y diwygiadau i'r dull o ymdrin â'r cyfrifon, a arweiniodd at ostyngiad o £92.4 miliwn mewn perthynas â darparu benthyciadau i fyfyrwyr;
- rhagor o fanylion am y broses o drosglwyddo £18.6 miliwn o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid;
- manylion symiau canlyniadol yn deillio o gyllideb 2011 y DU, gan gynnwys y penderfyniadau polisi a arweiniodd atynt, a ffigurau dangosol y symiau canlyniadol refeniw a chyfalaf ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r arolwg o wariant;
- manylion fesul rhanbarth o gostau etholiad 2011 a chymhariaeth â chostau rhanbarthol etholiadau blaenorol y Cynulliad, gan gynnwys costau cynnal y refferendwm yn 2011;
- manylion y gostyngiadau gwirioneddol mewn arian refeniw a chyfalaf yn ffigurau dangosol y gyllideb atodol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf; a
- rhagor o fanylion am yr amserlen ar gyfer dyrannu'r Gronfa Gyfalaf a Gedwir yn Ganolog.

## 3. Cyllideb Atodol 2011-2012 - Ystyried y dystiolaeth

3.1 Trafododd y Pwyllgor y prif faterion a gododd o'i waith o graffu ar Gyllideb Atodol 2011-12.

### Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.